

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG
Gwyndy, Bryncroes, Sarn, Pwllheli. Gwynedd. LL53 8ET.
Teleffon: Botwnnog 730357

7fed Ebrill, 2021.

Annwyl Aelod,

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor drwy ddefnyddio 'zoom' (drwy garedigrwydd Y Cynghorydd Michael Strain) **Nos Lun nesaf, 12fed Ebrill, 2021** am 7.30 y.h. Bydd y Cynghorydd Strain yn anfon e-bost atoch cyn yr amser dechrau fel y gallwch ymuno yn y cyfarfod.

RHAGLEN

1. CYHOEDDIADAU'R GADEIRYDDES

2. YMDDIHEURIADAU

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn gwybodaeth.

4. CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 8fed MAWRTH, 2021.

Copi'n amgaeedig.

"A"

I drafod unrhyw fater yn codi o'r cofnodion.

5. CEISIADAU CYNLLUNIO

I ystyried y ceisiadau a ganlyn ac unrhyw gais ddaw i law cyn noson y Cyngor. Os bydd cais arall i law, rhoddir gwybodaeth i chwi ymlaen llaw er rhoi cyfle i chwi gael golwg ar y we. **Noder** – nid oes copiau ar bapur yn dod mwyach ond gellwch weld manylion y cais ar safle we Cyngor Gwynedd drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'.

- (a) Cais C21/0216/32/LL – sied aml bwrpas amaethyddol yn lle sied bresennol – Siop Rhos, Bryncroes.
- (b) Cais 21/0266/32/LI – dymchwel anedd presennol a chodi anedd newydd yn ei le – Minffordd, Bryncroes.
- (c) Cais C21/0262/32/LL – gosod to uwchben pwll slyri presennol – Capel Ty Mawr, Sarn Mellteyrn

Mae apel o dan Adran 78(1) wedi ei chyflwyno gan Mr. Elfyn Richards – achos APP/Q6810/A21/3272047 – agor mynedfa gerbydol newydd, ymestyn gardd ddomestig a gwaith peirianyddol i newid lefelau tir gan gynnwys creu gofod parcio newydd – Efail Glandwr, Sarn Mellteyrn.

Gellir gweld y dogfennau apel ar: <https://acp.planninginspectorate.gov.uk/>

6. MATERION FFYRDD A LLWYBRAU

(a) A oes unrhyw ffordd/llwybr angen sylw.

(b) Ymateb Peiriannydd Ardal Dwyfor i gwynion anfonwyd i'w sylw ar ôl cyfarfod mis Mawrth. Copi'n amgaeedig. "B"

- (c) Gwybodaeth am raglen waith cynnal tiroedd 2021-22 Cyngor Gwynedd – torri gwair oddi fewn i 30/40 mya ym mhentrefi Botwnnog, Bryncroes a Sarn Mellteyrn – Mai, Gorffennaf ag Awst.

7. **MEDDYGFA RHYDBACH, BOTWNNOG**

O dan y Ddeddf Diogelwch Data mae'r ohebiaeth isod yn hollol gyfrinachol.

- (1) Llythyr gan drethdalwr dyddiedig 3ydd Mawrth, 2021 (fersiwn Gymraeg a Saesneg). "C"
- (2) Llythyr y Clarc i Reolwr Meddygfa Rhydbach dyddiedig 9fed Mawrth, 2021 "CH"
- (3) Ymateb Dr. O.G. Morris dyddiedig 16eg Mawrth, 2021, i'r ail sylw anfonwyd gan y Clarc (4ydd paragraff). "D"
- (4) Ymateb Y Rheolwr dyddiedig 25ain Mawrth, 2021 i lythyr y trethdalwr a thrydydd paragraff o lythyr y Clarc. (fersiwn Gymraeg a Saesneg). "DD"
- (5) Ymateb y trethdalwr i lythyr Rheolwr y Feddgfa (fersiwn Gymraeg a Saesneg). "E"

Yn ei lythyr mae'r trethdalwr yn cyfeirio at dargedau Llywodraeth Cymru, ac amgaeaf gopi Saesneg o'r ddogfen "Access to in-hours GMS Services Standards – Guidance for the GMS Contract Wales – 2019/20." Mae'r trethdalwr yn cyfeirio yn benodol at gymal II (tudalen 8), cymal VII (tudalen 11) a chymal VIII (tudalen 12). Copi o'r ddogfen yn amgaeedig. "F"

Ymhellach, gofynnir i'r Cyngor hefyd roi arweiniad sut i ddelio a chwynion a dderbynir gan y cyhoedd i'r gwasanaeth a ddarperir gan y Feddygfa.

8. **AWDURDOD I DALU**

I awdurdodi'r taliad a ganlyn ac unrhyw daliad ddaw i law cyn dyddiad y Cyngor.
Cwmni Yswiriant Zurich £708.17

Yn gywir,



Clarc

AELODAETH Y CYNGOR Y CYNGHORWYR

David Brunelli
Dylan Parry Jones
Carys E. Williams

Carys H. Evans
Ifor Owen
Glenys Williams

Elin Hughes
Glyn Roberts
Siôn Williams

Gwenan Griffith
Michael Strain